

Cofnodion Cyfarfod Arbennig 31 o Orffennaf 2012 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 o'r gloch.

1.0 YN BRESENNOL

Ken Brown
Lena Ashley
Iestyn Harris
George Smith
Bethan Jones
Nerys John

Daniel Williams
Hywel Vaughan Jones
Gareth Griffiths
Pat Jones
Louise Hughes

2.0 GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL

2.1 Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd Ken Brown i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod datganiad Carl Sergeant bod opsiwn porffor ffordd osgoi arfaethedig Bontnewydd a Chaernarfon wedi ei dewis fel y llwybr i'r ffordd.

Ymddiheuriadau Eluned Owen, Siân Gwenllïan.

3.0 FFORDD OSGOI BONTNEWYDD A CHAERNARFON

3.1 Eglurodd y Cadeirydd wedi cyhoeddiad Carl Sargeant ei fod wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod arbennig ym Methel i drafod y cyhoeddiad. Yn dilyn y cyfarfod sefydlwyd Grŵp yn gwrthwynebu'r Llwybr Porffor.

3.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at Gofnodion 16 Tachwedd 2010 y Cyngor lle nodwyd nad oedd penderfyniad wedi ei wneud i ffafrio un opsiwn na'r llall.

3.3 Cafwyd trafodaeth ynglyn ag effaith y ffordd borffor ar y Gymuned, Cyswllt Y Felinheli a Bethel, Perchnogion Tir, Ffordd osgoi'r Felinheli, Busnesau, Yr Amgylchedd ac yn y blaen.

Penderfynwyd cefnogi pobl leol - cynigwyd gan Pat Jones ac eiliwyd gan Miss Lena Ashley. Cefnogodd y Cyngor y cynnig yn unfrydol.

Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Carl Sargeant yn gwrthwynebu'r dewis o'r ffordd borffor a gofyn iddo ail ystyried a dewis y ffordd felen.

Y Clerc hefyd i anfon at Y Cyngorydd Sion Jones yn datgan cefnogaeth.

4.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

4.1 C12/0961/20/LL Gosod uned awyru newydd Garddfon Inn, Glan y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RQ. **Dim gwrthwynebiad.**

- 4.2 C12/0995/20/LL Cais ol-weithredol ar gyfer codi stabl ynghyd a darparu llawr called Swn y Môr, Griffiths Crossing, Caernarfon, LL55 1TS. **Dim gwrthwynebiad.**
- 4.3 C12/0997/20/LL Cais ar gyfer dymchwel ac ail adeiladu caffi a thoiledau newydd Aberpwl, Y Felinheli LL56 4JS. **Dim gwrthwynebiad.**
- 4.4 C12/0986/20/LL Cais llawn ar gyfer codi annedd 3 llawr – safle ger 11 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RZ. Y Cyngor yn gwrthwynebu y cais oherwydd y rhesymau canlynol:
- 4.4.1 Dim ond un annedd oedd ar y safle yma yn flaenorol ac mae hawl cynllunio blaenorol wedi ei roi eisoes i ddatblygu'r safle.
- 4.4.2 Roedd y cais cynllunio hwn yn cynnwys safleoedd parcio a phasiwyd y cais yn unol â hynny, nawr mae'r cais hwn yn dwyn un safle parcio oddi wrth y cais hwnnw; mae'r Cyngor yn amau cyfreithlondeb gwneud hynny gan fod y cam yma yn lleihau'r cyfleusterau parcio'r datblygiad a oedd wedi derbyn hawl oedd yn cynnwys y nifer o safleoedd parcio a nodwyd.
- 4.4.3 Gwelir oddi wrth y cynlluniau bod y datblygiad yn dwyn rhan o'r gilfan parcio ar Ffordd Caernarfon - mae'r Cyngor yn cwestiynu sut mae hyn yn gallu digwydd oherwydd mae'r ardal yn rhan o'r briffordd. Mae cynlluniau Cyngor Gwynedd i ddatblygu'r Lon Las yn cael ei amharu os yw'r ardal yma yn cael ei ddefnyddio gan y datblygwr.
- 4.4.4 Mae lle i barcio ar y ffordd yn brin iawn ar hyn o bryd a bydd y datblygiad yma yn rhoi fwy o bwysau ar y sefyllfa barcio bresennol.
- 4.4.5 Dim ond palmant is na'r safon sy'n bodoli ar un ochr i'r ffordd ac yn anffodus dim ond yr ochr yma mae parcio yn gallu bodoli oherwydd ar yr ochr arall mae mynedfa tai i gyd a'r bwys y ffordd.
- 4.4.6 Mae ardal barcio yn gallu cymryd oddeutu 10 cerbyd a rhwng yr oriau 6 yn yr hwyr i 9 yn y bore nid oes lle ynddo a golygai hyn bod parcio wedyn yn gorfod bod ar y ffordd syn lleihau lled y ffordd ac os yw biniau sbwriel ac ailgylchu ar y ffordd mae'r lled yn cael ei leihau yn bellach.
- 4.4.7 Mae iechyd a diogelwch defnyddwyr y ffordd yn fregus yn barod ar y lleoliad hwn a byddai datblygiad pellach yn gwaethygu'r sefyllfa.

Y Clerc i hysbysu'r Gwasanaeth Cynllunio o benderfyniadau'r Cyngor.

5.0 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

- 5.1 Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol ond anfonwyd adroddiad ysgrifenedig. Gweler Atodiad A.

Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 9:00 y.h.

Llofnod:..... Dyddiad:.....